# Atebion i Gwestiynau nas cyrhaeddwyd yn y Cyfarfod Llawn
# 13 Tachwedd 2002

[R] yn nodi bod yr Aelod wedi datgan buddiant.
[W] yn nodi bod y cwestiwn wedi'i gyflwyno yn Gymraeg.

**Cynnwys**

1 Cwestiynau ar Lywodraeth Leol i'r Gweinidog Cyllid
2 Cwestiynau i'r Gweinidog dros yr Amgylchedd

## Cwestiynau ar Lywodraeth Leol i'r Gweinidog Cyllid

### Strategaethau Digartrefedd Awdurdodau Lleol

**C11 Eleanor Burnham:** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am strategaethau'r awdurdodau lleol ar ddigartrefedd? (OAQ20191)

**Y Gweinidog dros Gyllid (Edwina Hart) :** Mae Deddf Digartrefedd 2002 yn ei gwneud yn ofynnol i awdurdodau lleol gynnal arolwg a ffurfio strategaeth i fynd i'r afael â digartrefedd yn eu hardaloedd. Rhaid i'r strategaeth fod ar waith erbyn 30 Medi 2003. Mae Llywodraeth y Cynulliad wedi cyhoeddi canllawiau drafft ar gyfer ymgynghoriad, sy'n egluro sut y mae disgwyl i awdurdodau gyflawni'r dyletswyddau hyn.

### Prosiectau Cymunedau yn Gyntaf

**C12 Rosemary Butler:** A wnaiff y Gweinidog roi manylion diweddaraf y prosiectau Cymunedau yn Gyntaf ledled Cymru? (OAQ20215)

**Edwina Hart:** Mae'r rhaglen Cymunedau yn Gyntaf yn datblygu'n dda. Hyd yn hyn, ni gymeradwywyd unrhyw brosiectau cyflawni penodol oherwydd fod cymunedau yn dal yng nghyfnod cynnar datblygiad y prosiectau.

### Yr Undebau Credyd yng Nghymru

**C13 Huw Lewis:** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am y cymorth y mae'n ei roi i undebau credyd yng Nghymru? (OAQ20194)

**Edwina Hart:** Ers Medi 2000, mae Llywodraeth Cynulliad Cymru wedi cyfrannu bron i £850,000 i Ganolfan Gydweithredol Cymru i gefnogi'r prosiect sydd wedi ei dargedu at ddatblygu ac ehangu undebau credyd yng Nghymru. Byddwn yn cyfrannu cyfanswm o bron i £1.4 miliwn yn ystod cyfnod y prosiect, a gaiff ei gefnogi hefyd gan tua £2.1 miliwn o arian Amcan 1.

*Tynnwyd cwestiwn 14 (OAQ20209) yn ôl.*

### Cynghorau Cymuned yng Nghymru

**C15 David Melding:** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am bwerau'r cynghorau cymuned yng Nghymru? (OAQ20204)

**Edwina Hart:** Mae swyddogaeth cynghorau tref a chymuned yng Nghymru yn cynnwys gweithredu fel darparyddion gwasanaeth ac fel hyrwyddwyr cymunedau. Mae'r rôl a'r gwasanaethau a ddarperir ganddynt, a'r graddau y defnyddir eu pwerau, yn amrywio rhwng cynghorau, gan ddibynnu ar eu

hamgylchiadau a dyheadau lleol penodol. Yn ychwanegol, gall cynghorau sir ddirprwyo rhai swyddogaethau i gynghorau tref a chymuned. Mater i'r cynghorau sir yw pa un ai oes unrhyw ddirprwyo a pha wasanaethau a ddirprwyir.

## Cwestiynau i'r Gweinidog dros yr Amgylchedd

### 'Yn Gall Gyda Gwastraff'

**C6 Alison Halford:** Pa gymorth y mae'r Gweinidog yn ei roi i awdurdodau lleol er mwyn sicrhau eu bod yn gallu cyflawni'r targedau cenedlaethol yn 'Yn Gall gyda Gwastraff'? (OAQ20162)

**Y Gweinidog dros yr Amgylchedd (Sue Essex):** Mae Llywodraeth Cynulliad Cymru wedi neilltuo cyfanswm o £67 miliwn i awdurdodau lleol dros y tair blynedd nesaf mewn grantiau refeniw a chymeradwyaethau credyd atodol i'w cynorthwyo i gwrdd a'r targedau o fewn 'Yn Gall Gyda Gwastraff'.

### Gollwng Gwastraff yn Anghyfreithlon

**C7 Mick Bates:** Beth mae'r Cynulliad yn ei wneud i atal pobl rhag gollwng gwastraff yn anghyfreithlon? (OAQ20132)

**Sue Essex:** Mae Llywodraeth y Cynulliad wedi ymrwymo i drechu'r arfer o waredu gwastraff yng anghyfreithlon ac mae'r arian ychwanegol a roddwyd gennym i Asiantaeth yr Amgylchedd i'r perwyl hwn yn dechrau dwyn ffrwyth. Yr ydym hefyd yn trafod gyda Chymdeithas Llywodraeth Leol Cymru sut y gallwn gynyddu pwerau gorfodi awdurdodau lleol o ran gwaredu gwastraff.

### Amddiffyn rhag Llifogydd

**C8 David Ian Jones:** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad ar gydgysylltu mesurau amddiffyn rhag llifogydd yng Nghymru? (OAQ20163)

**Sue Essex:** Mae gan Asiantaeth yr Amgylchedd, o dan adran 6(4) o Ddeddf yr Amgylchedd 1995, gyfrifoldeb goruchwylio cyffredinol dros pob mater sy'n ymwneud ag amddiffyn rhag llifogydd. Fel rhan o'r rôl hwn, mae'r asiantaeth yn gweithio mewn partneriaeth ag awdurdodau lleol a chyrff traenio mewnol a bydd fel rheol yn arwain y gwaith o gydlynu.

### Ffermydd Gwynt ar y Môr

**C9 Ann Jones:** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad ar y materion cynllunio sy'n gysylltiedig â datblygu ffermydd gwynt ar y môr yng Nghymru, y mae gan y Cynulliad gyfrifoldeb amdanynt? (OAQ20133)

**Sue Essex:** Yng Nghymru, gall y Cynulliad Cenedlaethol ond penderfynu ar geisiadau ar gyfer ffermydd gwynt ar y môr a wneir o dan y Ddeddf Trafnidiaeth a Gweithfeydd 1992. Cyn penderfynu ar gais, caiff holl faterion cynllunio y cynnig penodol eu hystyried yn ofalus. Os cyflwynir datganiad amgylcheddol gyda chais, caiff ei asesu'n drylwyr.

### Adolygiad o'r System Gynllunio

**C10 Karen Sinclair:** Sut mae'r Gweinidog yn mynd ati i gynnwys rhanddeiliaid yn yr adolygiad sy'n cael ei gynnal ar hyn o bryd ar y system gynllunio? (OAQ20145)

**Sue Essex:** Yr wyf wedi sicrhau yr ymgynghorwyd â rhanddeiliaid ym mhob cam o'r adolygiad cyfredol. Cyfarfûm â Fforwm Cynllunio Cymru fis Rhagfyr diwethaf i drafod y ddogfen ddrafft 'Cynllunio: Cyflawni dros Gymru', cyn iddi gael ei rhyddhau am gyfnod ymgynghori cyhoeddus o 12 wythnos. Yn dilyn yr ymgynghoriad, cyfarfûm â'r fforwm i drafod yr adroddiad ar y dadansoddiad, cyn trafod

adroddiad ar ganlyniad yr ymgynghoriad gyda Phwyllgor yr Amgylchedd, Cynllunio a Thrafnidiaeth. Byddaf yn parhau i gwrdd â'r fforwm, sy'n cynrychioli rhanddeiliaid allweddol, gan ei fod yn rhan fawr o'r broses adolygu.

### Prosiectau Cymunedol

**C11 Lorraine Barrett:** Pa gamau y mae'r Gweinidog wedi'u cymryd i gymell prosiectau cymunedol arloesol sy'n gwella'r amgylchedd yn lleol? (OAQ20167)

**Sue Essex:** Mae Amgylchedd Cymru yn cynnal prosiectau o'r fath ledled Cymru gyda'r bwriad o wneud gwelliannu cynaliadwy i amgylchedd Cymru o ganlyniad. At hynny, cyhoeddais yn ddiweddar y caiff cronfa lwyddiannus datblygu'r amgylchedd (sef y gronfa datblygu cynaliadwy bellach) ei hariannu am dair blynedd eto, gan gynnal prosiectau cymunedol mewn ardaloedd â thirlun gwarchodedig. Cyhoeddodd Edwina Hart hefyd yn ddiweddar raglen adnoddau a gweithgareddau cymunedol newydd, a ddylai gyflenwi cefnogaeth berthnasol ychwanegol ledled Cymru.

### Ansawdd Dŵr Traethau ac Afonydd

**C12 Rosemary Butler:** A all y Gweinidog ddweud pa waith sydd wedi'i wneud i wella ansawdd dŵr traethau ac afonydd ledled Cymru? (OAQ20139)

**Sue Essex:** Eleni, bu i'r 75 o ddyfroedd yng Nghymru a nodwyd gan y Comisiwn Ewropeaidd eu bod yn addas ar gyfer nofio gydymffurfio â safonau gorfodol y comisiwn. Dyma'r tro cyntaf un y cyflawnwyd hyn yng Nghymru. Yn ogystal, cyrhaeddodd 62 o ddyfroedd nofio (83 y cant) eleni â safonau canllawiau'r CE sydd ugeinwaith yn llymach—record arall a gwelliant nodedig ar y record blaenorol o 45 (60 y cant) yn 2001.

Dengys monitro gan Asiantaeth yr Amgylchedd fod afonydd Cymru ymhlith y gorau yn y DU. Yn 2001, dosbarthwyd 99 y cant o afonydd Cymru yn rhai da neu gymharol dda o ran safon gemegol. Dosbarthwyd bron i 93 y cant fel afonydd o safon dda, cyfran debyg i'r hyn a gafwyd mewn blynyddoedd diweddar ac yn welliant o'i gymharu â'r 86 y cant a gafwyd yn 1990.

### Gwarchod Adeiladau Rhestredig

**C13 David Melding:** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad ar warchod adeiladau rhestredig? (OAQ20174)

**Sue Essex:** Mae cadwraeth adeiladau hanesyddol yn bwysig nid yn unig o ran diogelu cyfoeth treftadaeth Cymru ond hefyd o ran y buddiannau a rydd hyn i adfywiad economaidd a chymdeithasol ac i'r gwaith o hyrwyddo datblygu cynaliadwy.

Mae'n ddyletswydd statudol ar awdurdodau lleol i diogelu adeiladau rhestredig o bwys pensaernïol neu hanesyddol, a gall yr awdurdodau gynnig cyngor i berchenogion ar faterion cadwriaethol, ynghyd â sefydliadau megis y Society for the Protection of Ancient Buildings, sydd wedi trefnu wythnos cynnal a chadw genedlaethol ar gyfer adeiladau hanesyddol y mis hwn.

Mae Cadw: Henebion Cymru yn cyhoeddi canllawiau ar gadwraeth adeiladau penodol, megis capeli hanesyddol, a gall gynnig grantiau ar gyfer atgyweirio'r adeiladau hanesyddol pwysicaf.

### Tanwydd Amgen

**C14 Owen John Thomas:** Pa ganllawiau y mae'r Gweinidog yn eu rhoi i gwmnïau bysiau ynghylch defnyddio mathau gwahanol o danwydd heblaw am betrol a disel? (OAQ20172)

**Sue Essex:** Ceir canllawiau ar danwyddau amgen gan yr Ymddiriedolaeth Arbed Ynni. Mae'r ymddiriedolaeth yn gweinyddu rhaglen PowerShift Llywodraeth y DU, sy'n rhoi grantiau tuag at gost trosi cerbydau i ddefnyddio tanwyddau glanach megis nwy petroliwm hylifedig a nwy naturiol hylifedig.

Mae'r Adran Drafnidiaeth ar hyn o bryd yn ymgynghori ar ei hadolygiad o fecanweithiau cymorthdaliadau i wasanaethau bysiau yn Lloegr. Y bwriad yw sicrhau y defnyddir ei chymorth yn y modd mwyaf effeithiol, yn unol ag amcanion Llywodraeth y DU, gan gynnwys effaith trafnidiaeth ar yr amgylchedd. Byddaf yn lansio cyn hir ymgynghoriad tebyg o ran y modd yr ariennir gwasanaethau bysiau lleol yng Nghymru gan Lywodraeth Cynulliad Cymru.

**Hwyaid Cochion**

**C15 Christine Gwyther:** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad ar yr ymgynghori sydd wedi bod rhwng y Cynulliad ac Adran yr Amgylchedd, Bwyd a Materion Gwledig ynghylch cynlluniau i reoli'r boblogaeth o hwyaid cochion ar ôl i'r tair blynedd o dreialu rheolau ddod i ben? (OAQ20173)

**Sue Essex:** Mae fy ateb i OAQ19439 yn cyfeirio at y mater hwn. Mae fy swyddogion mewn cysylltiad rheolaidd â'u cymheiriaid yn yr Adran dros yr Amgylchedd, Bwyd a Materion Gwledig. Mae DEFRA wedi ceisio barn amrywiaeth o sefydliadau a chanddynt fuddiant am gasgliadau'r adroddiad, ac y mae'n pwyso a mesur yr ymatebion. Yn sgîl coladu'r holl wybodaeth angenrheidiol, deallaf y bydd Gweinidogion DEFRA yn ysgrifennu at Weinidogion yn y gweinyddiaethau datganoledig am eu barn am y ffordd ymlaen.